

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Kingsway, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 29 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf.....	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Kingsway, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 29 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

1. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom arsylwi ar rymgweithio cyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion ac roedd galwadau ffôn yn cael eu cymryd mewn swyddfa i ffwrdd oddi wrth brif gownter y dderbynfa er mwyn cynorthwyo â chyfrinachedd cleifion.

Roedd yn galonogol gweld bod ceisiadau am apwyntiadau yn cael eu brysennu gan feddyg teulu i helpu i asesu'n glinigol natur frys galwadau a sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol. Fodd bynnag, roedd rhai cleifion o'r farn y gellid cryfhau'r broses trefnu apwyntiadau.

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis ac roedd amrywiaeth o glinigau yn cael eu cynnal ar gyfer rheoli cyflyrau cronig a gwasanaethau eraill, fel brechiadau ac imiwneiddiadau. Roedd yn galonogol gweld bod y practis wedi datblygu Hyb Byw'n lach drws nesaf i'r practis, sy'n cynnig cyfleusterau ymarfer corff i'r cleifion ynghyd â'r cyfle i gymdeithasu.

Roedd y cleifion yn cael gwybod y gallai hebryngwr fod yn bresennol mewn archwiliadau personol, a gwelsom dystiolaeth o hyn, ond gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau bod y broses o gadw cofnodion yn cael ei chryfhau i nodi bod hebryngwr wedi cael ei gynnig a'i ddefnyddio yn ystod ymgynghoriad. |

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod amgylchedd y practis yn lân, yn drefnus ac yn hygyrch i bawb. Roedd trefniadau priodol ar waith i nodi ac ymateb i unrhyw bryderon amgylcheddol, gan gynnwys tân, atal a rheoli heintiau, gwastraff peryglus a legionella.

Ar y cyfan, roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth, gan gynnwys argaeledd a hygyrchedd cyfarpar meddygol brys. Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon diogelu ac roedd arweinwyr diogelu clinigol wedi'u henwebu. Rydym wedi argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar yr angen am hyfforddiant ychwanegol a pharhaus yn y maes hwn, a sicrhau bod baneri'n cael eu rhoi ar gofnodion cleifion perthnasol pan fydd pryderon diogelu.

Ar y cyfan, roedd prosesau da ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwaith tîm amlddisgyblaethol, ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau allanol a fforymau i adolygu digwyddiadau a dysgu ohonynt.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion electronig a gwelsom eu bod yn gadarn yn glinigol ac o ansawdd da ar y cyfan. Gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w cryfhau ac rydym wedi cynghori'r practis i gynnal archwiliad maes o law. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli ac arwain clir ar waith. Roedd gan bob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw rolau a chyfrifoldebau clir ac roeddent yn wybodus am eu meysydd gwaith. Roedd adborth y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob aelod o'r staff yn nodi bod y practis yn lle da i weithio ynddo.

Gallai'r cleifion roi adborth mewn sawl ffordd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddull cwyno ffurfiol. Roedd hyn yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Roedd y practis yn dangos dull da tuag at ddysgu a gwella ansawdd. Roedd hyn yn cynnwys ceisio adborth gan gleifion ac ymateb iddo, gan gynnwys cwynion ffurfiol a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd o gyfarfodydd adolygu digwyddiadau. Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i Ddyletswydd Gonestrwydd drwyddi draw.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau rheoli'r practis ac archwiliadau clinigol. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau'n rhagweithiol ac mewn ymateb i faterion lleol sy'n effeithio ar y boblogaeth o gleifion. |

2. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ym mhob maes arolwg cleifion, gyda rhai ymatebion llai cadarnhaol yn ymwneud â'r gallu i weld meddyg teulu a threfnu apwyntiadau. Dywedodd tri chwarter o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda. |

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Rydym yn teimlo'n ffodus ein bod wedi cofrestru â'r practis hwn. Maen nhw'n gofalu amdanom yn wych.”

“Mae ein meddygon teulu yn hyfryd, yn broffesiynol ac yn garedig. Ond mae mor anodd cael apwyntiad i'w gweld. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwrdd cyn 9.30, mae'n rhaid i chi roi cynnig arall arni y bore canlynol. Dyw hyn ddim yn ddigon da!”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio, iechyd meddwl a chymorth i ofalwyr. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o glinigau rheoli cyflyrau cronig a gwasanaethau ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys mân lawdriniaethau, brechiadau a chlinigau iechyd plant. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan feddygon teulu, nyrsys practis a chymunedol, fferyllydd a chlinigwyr parafeddygol.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod y practis wedi datblygu Hyb Byw'n lach drws nesaf i'r feddygfa, sy'n cynnig cyfleusterau ymarfer corff i'r cleifion ynghyd â'r cyfle i gymdeithasu. Roedd cymorth yn cael ei gynnig gan therapydd ymarfer corff a thîm o wirfoddolwyr. |

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom ryngweithio cyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, nododd rhai cleifion a ymatebodd i'r arolwg y gellid cryfhau'r broses o ryngweithio â staff y dderbynfa.

Roedd yr ardal aros yn sicrhau y gallai staff y dderbynfa a'r cleifion gael sgysiau preifat ar y cyfan, ond roedd rhai o'r cleifion a ymatebodd i'r arolwg yn anghytuno y gellid cynnal preifatrwydd. Roedd galwadau brysbennu dros y ffôn yn cael eu cymryd mewn swyddfa i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd i'r cyhoedd.

Gwelsom fod drysau'r feddygfa a'r clinig yn cael eu cadw ar gau bob amser wrth i'r cleifion gael eu gweld a'u trin.

Roedd y cleifion yn cael eu hysbysu y gallent gael hebryngwr gyda nhw yn ystod eu hymgyngoriad neu wrth gael archwiliad. Gwnaethom gadarnhau bod hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd ar gael, a bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y broses o gofnodi bod hebryngwr wedi cael ei gynnig a ph'un a wnaeth y claf dderbyn neu wrthod y cynnig hwn, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, bob amser yn cael ei nodi yng nghofnodion y cleifion.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses o gynnig hebryngwr a'r penderfyniad a wnaed gan y claf, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, yn cael ei nodi yng nghofnodion meddygol y cleifion. |

Amserol

Gofal amserol

Ceir mynediad i apwyntiadau ar y diwrnod drwy wefan y practis, drwy ap neu drwy ffonio tîm y dderbynfa ar fore'r diwrnod y gwneir cais am apwyntiad. Pan gaiff llefydd ar gyfer apwyntiadau dyddiol eu llenwi, caiff y cleifion yr opsiwn o ofyn am apwyntiad brys ar gyfer materion meddygol sy'n sensitif o ran amser neu drefnu apwyntiad hyd at bedair wythnos ymlaen llaw.

Roedd yn galonogol gweld bod ceisiadau am apwyntiadau drwy gydol y dydd yn cael eu brysbennu gan feddyg teulu i helpu i asesu'n glinigol natur frys galwadau a sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol. At hynny, gwnaethom gadarnhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion ar-lein a thrwy'r system ffôn y dylent ffonio 999 pan fydd ganddynt symptomau brys sy'n gysylltiedig â thrawiad ar y galon, strôc neu waedu trwm. Rhoddir gwybodaeth hefyd am sut y gall gwasanaethau fferyllfa gymunedol helpu gyda sawl anhwylder a chyflwr cyffredin.

Dywedodd dros hanner y cleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar fyrder ac

y gallent gael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt. Dywedodd rhai o'r cleifion:

“Mae'r system trefnu apwyntiadau ar-lein yn gweithio'n dda i mi, ond byddai dychwelyd i system troi i fyny ac aros, hyd yn oed unwaith yr wythnos, yn ei gwneud yn haws i'r henoed.”

“Allwch chi byth weld yr un meddyg; nid yw'n galluogi pobl sy'n gweithio i drefnu apwyntiadau ar yr un diwrnod am fod yn rhaid i chi fod ar eich ffôn ar adegau penodol a dyw hynny ddim yn bosibl ym mhob swydd.”

“Ers Covid, mae bron yn amhosibl cael apwyntiad wyneb yn wyneb ar yr un diwrnod, ac fel person hŷn, dyw siarad â rhywun dros y ffôn ddim yr un fath â gweld meddyg wyneb yn wyneb. Os byddwch yn aros i rywun eich ffonio yn ôl, mae'n golygu gorfod cario ffôn o amgylch y cartref, a dydych chi ddim yn gwybod pryd y bydd yn digwydd, a fydd yn gynnar neu a fydd y diwrnod hwnnw. A fyddwch chi'n siarad â meddyg mewn gwirionedd, neu ai dim ond neges destun y byddwch yn ei chael...”

Dylai'r practis fyfyrrio ar yr adborth hwn, yn enwedig sut mae'n cynnwys pob hŷn yn y broses o drefnu apwyntiadau, er mwyn sicrhau bod apwyntiadau ar gael i bawb yn deg.

Roedd ychydig dros hanner y cleifion sydd â chyflwr meddygol cronig o'r farn y gallant gael gafael ar y cymorth rheolaidd sydd ei angen arnynt. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth y tu allan i oriau. |

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd arwyddion a gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd hyn yn cynnwys llinell ffôn ddwyieithog. Er bod nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis yn isel, dywedodd y staff wrthym fod hyn yn cyd-fynd ag anghenion ieithyddol yr ardal leol a wasanaethir ar y cyfan.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn gyfarwydd â gwasanaethau fel Language Line i gefnogi unrhyw anghenion cyfieithu. Roedd gwefan amlieithog ar gael i gleifion, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am y practis a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. |

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ym mhob ardal a oedd yn cael ei defnyddio gan staff a chleifion. Roedd yn hygyrch, gyda mynediad gwastad.

Roedd cyfarpar canfod tân, diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu, arwyddion a goleuadau ar waith ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan asesiad risg tân. Roedd yn ymddangos bod profion ar gyfarpar cludadwy yn cael eu cynnal ar eitemau trydanol, ac roedd tystiolaeth bod archwiliadau amgylcheddol ac archwiliadau legionella yn cael eu cwblhau, a bod camau i wella yn cael eu rhoi ar waith pan oedd angen.

Roedd y staff yn gallu gofyn am gymorth brys, fel os bydd claf yn llewygu, o bob meddygfa a chlinig. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y staff eu bod yn gyfarwydd â'r broses a sut i ymateb. |

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y practis yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan amserlenni glanhau ac adeilad sy'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda a oedd yn hwyluso gwaith effeithiol o reoli prosesau atal a rheoli heintiau.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant atal a rheoli heintiau lefel 2 a hyfforddiant hylendid dwylo. Roedd archwiliad wedi'i gynnal yn ddiweddar, a chymerwyd camau gweithredu amserol mewn ymateb i hynny. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid newid y llenni tafladwy bob chwe mis neu'n amlach os byddent yn fudur er mwyn lleihau'r risg o draws-heintio, o ystyried y gellid cynnal triniaethau mewnwthiol mewn unrhyw ystafell glinigol yn y practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod llenni tafladwy newydd yn cael eu gosod bob chwe mis neu'n amlach os byddent yn fudur, mewn ardaloedd clinigol lle caiff triniaethau mewnwthiol eu cynnal.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n harolwg ac a ddywedodd wrthym eu bod wedi cael triniaeth fewnwthiol yn cytuno bod y staff clinigol yn gwisgo menig yn ystod y driniaeth, bod eitemau untro yn cael eu defnyddio, a bod weips gwrthfacterol wedi cael eu defnyddio ar y croen cyn y driniaeth.

Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys eitemau miniog, yn cael eu gwahanu'n briodol a'u storio mewn biniau priodol. Roeddent yn cael eu storio'n ddiogel i ffwrdd oddi wrth ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ac roedd contractau ar waith i waredu deunydd peryglus. Roedd proses ar waith ar gyfer unrhyw anafiadau a achosir gan nodwydd ac roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn.

Roedd cofnod yn cael ei gadw ar gyfer statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff clinigol, ac roedd tystiolaeth bod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. |

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau archebu, gwirio stoc a gwirio tymheredd yr oergell, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r camau gweithredu i'w cymryd pe bai methiant mecanyddol. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau yn cael eu storio yng ngwaelod yr oergell, a allai atal aer oer rhag cylchdroi ac amharu ar effeithlonrwydd y cyffuriau. Cafodd y mater hwn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Roedd hyn yn cynnwys prosesau cadarn i ymateb i argyfyngau meddygol lle gallai fod angen y troli brys. Er bod archwiliadau yn cael eu cwblhau a'u cofnodi ar gyfer yr holl gyfarpar brys, gan gynnwys yr ocsigen a'r diffibriliwr, rhaid i'r practis sicrhau bod hyn yn cael ei wneud bob wythnos o leiaf yn y practis a'r Hyb Llesiant, yn unol â Safonau Ansawdd Gofal Sylfaenol Cyngor Adfywio'r DU. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu storio ar y safle. |

Diogelu plant ac oedolion

Roedd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd hyn wedi'i ategu gan bolisi diogelu, a oedd yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu sy'n briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd dau arweinydd diogelu clinigol wedi'u henwebu a oedd yn rhannu'r rôl. Gwelsom, er bod un arweinydd diogelu wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 4, bod angen i'r ail ystyried a oes angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol a pharhaus i'w helpu i gyflawni'r rôl hon.

Dylai'r practis ystyried a oes angen unrhyw ddatblygiad a hyfforddiant diogelu ychwanegol a/neu barhaus ar gyfer y ddau arweinydd diogelu clinigol a enwebwyd.

Roedd proses ar waith ar system cofnodion y cleifion i sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu'n rhwydd am blant sy'n wynebu risg ym mhob apwyntiad. Fodd bynnag,

gwelsom mewn un cofnod, er bod baneri wedi'u gosod ar gofnodion brodyr neu chwiorydd, nad oedd baner briodol wedi'i gosod ar gofnod y claf.

Rhaid i'r practis sicrhau bod baneri yn cael eu rhoi ar gofnodion holl aelodau teulu unrhyw blentyn neu berson ifanc ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. |

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gweithio'n effeithiol. Roedd tystiolaeth bod cyfarpar diffygiol yn cael ei galibradu a bod cyfarpar newydd yn cael ei drefnu drwy contractau â gweithgynhyrchwyr a darparwyr dyfeisiau perthnasol. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. |

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau da ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwaith tîm amlddisgyblaethol a'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â chlinigwyr ac asiantaethau allanol.

Gwelsom broses amserol ac archwiliadwy ar gyfer delio ag atgyfeiriadau a gohebiaeth arall i mewn ac allan o'r practis i ofal eilaidd a/neu weithwyr ieuchyd proffesiynol arall.

Roedd gan y staff rolau a chyfrifoldebau clinigol wedi'u nodi'n glir ac roedd prosesau i rannu diweddariadau clinigol. Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd i adolygu digwyddiadau difrifol ac i sefydlu unrhyw wersi a ddysgwyd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried Dyletswydd Gonestrwydd pan fo angen. |

Cofnodion cleifion

Gwelsom ddeg cofnod cleifion electronig ac roedd y cynnwys yn gadarn yn glinigol ac o ansawdd da ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w cryfhau mewn perthynas â chadw cofnodion clinigol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Myfyrio ar fformat y templed o ran y modd y caiff ymgynghoriadau eu cofnodi ar EMIS i sicrhau bod hyn yn llifo yn rhesymegol i'r clinigydd sy'n adolygu'r cofnod hwnnw
- Sicrhau y cynigir hebryngwr ar gyfer archwiliadau personol, a bod y cynnig, y penderfyniad i'w dderbyn a'r hebryngwr sy'n bresennol yn cael eu cofnodi
- Sicrhau bod y rheswm dros beidio â pharhau â meddyginiaeth bob amser yn cael ei gofnodi ar y sgrin cyffuriau blaenorol yn cael ei gysylltu'n gyson â'r diagnosis.

Dylai'r practis gynnal archwiliad cadw cofnodion ac ystyried cynnal archwiliadau parhaus i gynnal ansawdd y broses o gadw cofnodion. |

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion i'n harolwg staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf yn dweud wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud awgrymiadau er mwyn gwella arferion. Teimlai pob aelod o'r staff heblaw un eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar newidiadau a all effeithio ar eu gwaith. Roedd rhai sylwadau yn cynnwys y canlynol:

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Tîm gwyh i gydweithio â nhw y mae darparu gofal gwyh i gleifion yn bwysig iddynt.”

“Dim digon o amser hyfforddiant gwarchodedig ac weithiau nid yw'r sesiynau hyfforddiant yn gyson.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ac arwain clir ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yn ymddangos bod tîm y practis yn gweithio'n gydlynol ac yn siarad yn gadarnhaol am y ffordd yr oeddent yn cefnogi ei gilydd yn broffesiynol ac i ddarparu gofal gwell i gleifion. Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio i'r tîm rannu gohebiaeth gyffredinol a gohebiaeth frys.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r polisiau gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cael eu teilwra'n ddigonol a'u bod yn adlewyrchu arferion cyfredol a fabwysiadwyd gan dîm y practis.

Dylai'r practis sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'n cael eu teilwra'n ddigonol a'u bod yn adlewyrchu arferion cyfredol a fabwysiadwyd gan dîm y practis. |

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd proses sefydlu a chynefino ar waith i aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr meddygol a meddygon teulu dan hyfforddiant, ac roedd nifer o'r rhain wedi'u croesawu yn y practis.

Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff yn unol â'u rôl yn y practis. Fodd bynnag, yn y sampl o ffeiliau'r staff a adolygwyd gennym, gwelsom nad oedd tystysgrif fanylach un aelod o'r tîm clinigol ar gael ar unwaith. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth o weithgarwch arfarnu, a gwelsom enghreifftiau o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu yn cael eu darparu yn unol ag anghenion datblygu'r staff. Roedd y staff wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau, a oedd yn gysylltiedig â'u cylch ail-ddilysu. |

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gallai'r cleifion roi adborth mewn sawl ffordd, gan gynnwys wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddull cwyno ffurfiol. Roedd hyn yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol. Roedd y rhain wedi cael eu cydnabod o fewn yr amserlen briodol, ac roeddent yn cael eu monitro gan dîm rheoli'r practis i sicrhau y caiff yr ymatebion llawn eu darparu mewn modd amserol, ac i hysbysu'r cleifion os bydd unrhyw oedi. |

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod data a gwybodaeth am gleifion, atgyfeiriadau a cheisiadau yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol. Gwelwyd bod yr holl gofnodion cleifion electronig a phapur yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd yr holl staff yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TG sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth da i'r cleifion. |

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dangos dull da tuag at ddysgu a gwella ansawdd. Roedd hyn yn cynnwys dulliau ar gyfer ceisio adborth gan gleifion ac ymateb iddo, gan gynnwys cwynion ffurfiol. Roedd dystiolaeth hefyd bod presenoldeb da mewn cyfarfodydd

adolygu digwyddiadau difrifol, a oedd yn cynnwys canlyniadau a gwersi a ddysgwyd.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau rheoli'r practis ac archwiliadau clinigol. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cwblhau'n rhagweithiol ac mewn ymateb i faterion lleol sy'n effeithio ar y boblogaeth o gleifion. Roedd tystiolaeth bod gwaith clwstwr da yn mynd rhagddo i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais ar gefnogi pobl i fyw bywydau iach ac i hybu llesiant. |

3. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Er bod archwiliadau'n cael eu cynnal ar y troli brys, gan gynnwys yr ocsigen a'r diffibriliwr, yn y practis a'r Hyb, nid oedd y rhain wedi cael eu cwblhau a'u cofnodi bob wythnos o leiaf.	Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael yn llawn a'i fod yn gweithio'n iawn	Tynnwyd sylw rheolwyr y practis	Rhodddwyd rhestr wirio wythnosol ar waith ar unwaith
Roedd rhai cyffuriau yr oedd angen eu storio'n oer yn cael eu storio ar waelod yr oergell glinigol.	Gall hyn effeithio ar lif aer oer ac effeithlonrwydd y cyffur.	Tynnwyd sylw rheolwyr y practis	Cafodd y cyffuriau eu hailosod yn yr oergell a hysbyswyd y staff clinigol.
Yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom, dim ond tystysgrif sylfaenol un aelod o'r staff clinigol a oedd ar gael ar unwaith.	Mae'n ofynnol i'r holl staff clinigol gael gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd oherwydd natur eu rôl.	Tynnwyd sylw rheolwyr y practis	Cafwyd tystysgrif fanylach a diwygiodd y staff y broses er mwyn sicrhau bod tystysgrifau manylach yn cael eu storio yn ffeiliau'r staff fel mater o drefn.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Kingsway

Dyddiad yr arolygiad: 29 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Kingsway

Dyddiad yr arolygiad: 29 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Risg i brofiad y cleifion	Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses o gynnig hebryngwr a'r penderfyniad a wnaed gan y claf, ynghyd â manylion unrhyw hebryngwyr sy'n bresennol, yn cael ei nodi yng nghofnodion meddygol y cleifion.	Canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol Dyletswydd Ansawdd - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn / Diogel	Cyfleu i'r holl glinigwyr sut i godio hebryngwyr yn nodiadau'r cleifion gyda blaenlythrennau'r person sy'n hebrwng. Hefyd, codio a gaiff y cynnig o hebryngwr ei wrthod gan y claf.	Christina Kelly	3 mis
2.	Risg i ofal diogel ac effeithiol (atal a rheoli heintiau)	Rhaid i'r practis sicrhau bod llenni tafladwy newydd yn cael eu gosod bob chwe mis neu'n amlach os byddent yn fudur, mewn ardaloedd clinigol lle caiff triniaethau mewnwthiol eu cynnal.	Safonau Glanhau Cenedlaethol Dyletswydd Ansawdd - Diogel	Newid llenni tafladwy bob 6 mis neu'n amlach os bydd angen.	Swyddog lechyd a Diogelwch a thîm nyrsio	Ar unwaith

3.	Risg i ofal diogel ac effeithiol (Diogelu)	Dylai'r practis ystyried a oes angen unrhyw ddatblygiad a hyfforddiant diogelu ychwanegol a/neu barhaus ar gyfer y ddau arweinydd diogelu clinigol a enwebwyd.	Safonau Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Dyletswydd Ansawdd - Diogel	Edrych ar y cwrs diogelu lefel 4 ar gyfer [yr Arweinydd Diogelu] fel rhan o'i rôl a'i datblygiad personol yn arwain Diogelu.	Christina Kelly	3 mis
4.	Risg i ofal diogel ac effeithiol (Diogelu)	Rhaid i'r practis sicrhau bod baneri yn cael eu rhoi ar gofnodion holl aelodau teulu unrhyw blentyn ar y gofrestr amddiffyn.	Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol / Iechyd Cyhoeddus Cymru Dyletswydd Ansawdd - Diogel	Cwblhawyd a gweithredwyd	Dr Rebecca Jenkinson	
	Risg i ofal diogel ac effeithiol (Effeithiol)	Dylai'r practis gynnal archwiliad cadw cofnodion ac ystyried cynnal archwiliadau parhaus i sicrhau y caiff y broses o gadw cofnodion ei hatgyfnerthu a'i chynnal.	Canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol Dyletswydd Ansawdd - Effeithiol	Adolygu'r templed iechyd rhywiol ac ailstrwythuro. Cynnal cyfarfod clinigol i drafod sut i strwythuro nodiadau ymgynghori'r cleifion yn gyson i'r holl glinigwyr	Dr Rebecca Jenkinson	3 mis
	Rheoli ac Arwain	Dylai'r practis sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n	Dyletswydd Ansawdd - Amrywiol	Sefydlu archwiliadau DNA i fonitro a yw	Christina Kelly	1 mis

		cael eu teilwra'n ddigonol a'u bod yn adlewyrchu arferion cyfredol a fabwysiadwyd gan dîm y practis.		cleifion wedi colli apwyntiadau ac anfon llythyrau yn brydlon. Siart lif i ddangos sut y gall claf ofyn am apwyntiad dros y ffôn i gyfateb i'r cais digidol ar y polisi apwyntiadau. Sefydlwyd archwiliad hebryngwyr i sicrhau bod clinigwyr yn codio hebryngwyr yng nghofnodion y cleifion.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Christina Kelly

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 21 Mawrth 2025